

# Mair a’r angel Gabriel

www.lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther






Am amser hir iawn, iawn roedd pobl wedi darllen addewidion Duw. Addawodd y byddai un dydd yn anfon ei fab ei hun o’r nefoedd i reoli’r ddaear a dod â gobaith a heddwch i’r byd. Felly disgwyliodd a gweddïodd y bobl.




Roedd merch ifanc, ddibriod o’r enw Mair yn byw yn nhref Nasareth. Roedd hi’n caru Duw â’i holl galon ac roedd yn garedig ac yn dda. Anfonodd Duw yr angel Gabriel i ddweud wrthi mai hi fyddai mam y Gwaredwr roedd O wedi ei addo.




“Paid â bod ofn,” meddai Gabriel. “Rwyt ti’n arbennig ac mae Duw wedi dy ddewis di. Bydd yr Ysbryd Glân yn dy gyffwrdd a’r bachgen fyddi di’n ei eni fydd yr Un gafodd ei addo i’r bobl, yr Un maen nhw wedi bod yn aros mor hir amdano. Byddi’n ei alw’n Iesu.”



“Ymhen tri mis bydd dy gyfnither, Elisabeth, yn cael bachgen bach, er ei bod hi’n llawer rhy hen i fod yn fam. Gyda Duw does un dim yn amhosibl. Dos i’w gweld hi,” meddai’r angel.



“Fe wnaf i bopeth y mae Duw eisiau i mi ei wneud,” atebodd Mair a gadawodd ei chartref cyn gynted ag yr oedd modd iddi wneud hynny, i ymweld â’i chyfnither, Elisabeth. Roedd Elisabeth yn feichiog ers chwe mis yn union fel roedd yr angel wedi dweud! Roedd hyn yn wyrth a diolchodd y ddwy ddarpar fam i Dduw.



Roedd Joseff wedi addo priodi Mair un dydd. Roedd yn ddyn da ond doedd o ddim yn gwybod beth i’w wneud am fod Mair yn disgwyl babi ac nid ef oedd y tad. Un noson ymwelodd yr angel Gabriel â Joseff a dywedodd wrtho am beidio â bod ofn.



Dywedodd yr angel wrtho, “Joseff, prioda Mair a gofala amdani. Mae hi’n ferch ifanc, bur sydd wedi cael ei dewis fel rhan o gynllun rhyfeddol Duw i fod yn fam i Waredwr y byd. Ei enw fydd IESU.”